HSCS(6)-02-21 PTN 9

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Altaf Hussain AS

11 Awst 2021

Annwyl Altaf

Eich cyfarfod ag RNIB Cymru

Diolch yn fawr iawn am roi gwybod imi am eich trafodaeth ddiweddar gydag RNIB.

Mae'n frawychus bod 57 y cant o'r bobl sy'n aros am apwyntiad llygaid bellach yn cael eu hystyried fel rhai sydd mewn perygl o golli eu golwg yn sgil yr amser y maent wedi bod yn aros am driniaeth. Mae'n debyg mai'r Pwyllgor Iechyd fyddai'r Pwyllgor gorau i wneud gwaith dilynol ar y mater hwn. Mae hyn oherwydd bod y mater, i raddau helaeth, yn ymwneud ag effeithlonrwydd y broses brysbennu ar gyfer cleifion llygaid, i ba raddau y maent yn cael eu cyfeirio'n briodol at yr ystod lawn o glinigwyr llygaid, ac i ba raddau y mae delweddau TG sy'n cael eu creu gan optemetryddion ar y stryd fawr yn cael eu defnyddio er mwyn tynnu sylw at y bobl y mae angen eu gweld ar frys. Felly, byddaf yn anfon copi o'ch llythyr at Russell George, sef Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd.

Mae'r holl faterion eraill yn faterion cydraddoldeb pwysig y gallwn eu trafod yn ystod ein cyfarfod strategaeth nesaf ym mis Medi.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at: Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.